**Bwletin o Batagonia 5 – Tomillo gan Twm Elias**

Un o'r pethau pwysicaf ddysgodd y Gwladfawyr cynnar oddiar frodorion gwreiddiol ardal Chubut, y Tehuelche, oedd pa rai o blanhigion y paith oedd yn ddefnyddiol fel meddyginiaethau neu yn fwytadwy a pha rai i'w hosgoi am eu bod yn wenwynig. Un o'r rhain yw y tomillo; i'w ynganu fel 'tomishio' am fod yr 'll' Gymraeg yn troi yn 'sh' yn fersiwn Patagonia o'r iaith Sbaeneg. Ystyr tomillo, sy'n enw Sbaeneg, yw teim. Ni chlywais am enw Cymraeg iddo ac nid ydwyf, hyd yn hyn, wedi darganfod yr enw brodorol. Ei enw gwyddonol yw *Acantholippia serphioides*, teulu'r *Verbenaceae*.

Llwyn bychan coediog yn sefyll tua dwy droedfedd o'r llawr yw'r tomillo, gyda dail bychain llwydwyrdd yn tyfu yn syth o'r coesyn a chlwstwr o flodau bychain gwynion ar flaenau'r canghennau. Pan wasgwch y dail bydd arogl aromatig hyfryd ar eich bysedd, yn gyfuniad, yn fy marn i beth bynnag, o Vic (yr eli aroglus roddwch ar eich gwddw dros nos i leddfu dolur gwddw) a mint. Mae'n blanhigyn adnabyddus ar draws canolbarth yr Ariannin ac mae sawl defnydd iddo. Bydd trigolion y Gaiman yn ei ddefnyddio fel perlysieuyn ar gig i'w rostio, yn enwedig cyw iâr, ac fel trwyth i wella dolur gwddw a diffyg llais. Pan gafodd Rebeca White, sy'n byw yn y Gaiman, annwyd trwm a dolur gwddw ddiwedd Mai 2022, ei meddyginiaeth oedd trwyth poeth o'r tomillo efo mel a sug lemon ynddo.

Mae amryw o gemegau aromatig i'w cael yn y tomillo a gall y rhain amrywio ryw ychydig o ardal i ardal a thrwy'r tymhorau (1).



*Y tomillo aroglus*

Ewch ar Google i ddarganfod mwy:

Variabilidad química del tomillo silvestre (Acantholippia seriphioides, Verbenaceae) en la meseta Patagónica

**Título:** Chemical Variability of “tomillo silvestre” (Acantholippia seriphioides, Verbenaceae) in the Patagonian Plateau

González, Silvia Beatriz; Guerra, Pedro E.; Van Baren, Catalina Maria; Di Leo Lira, Paola Maria del Rosario ; Retta, Daiana Sabrina; Bandoni, Arnaldo Luis

**Fecha de publicación:** 01/2016
**Editorial:** Soc Fitoquimica Latinoamericana

**Revista:** Boletín Latinoamericano y del Caribe de Plantas Medicinales y Aromáticas

**ISSN:** 0717-7917